

Telerau ac Amodau Ysgoloriaeth PhD Margaret Wooloff 2022

1. **Cwmhwyster:** Mae ceisiadau am Ysgoloriaeth PhD Margaret Wooloff un agored I ymgeiswyr sy'n cael eu dosbarthu fel talwyr ffioedd Cartref (DU).

I fod ar dir addas i dderbyn ysgoloriaeth, rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gofrestru fel myfyriwr ôl-raddedig ar gyfer PhD yn Aberystwyth, hy gradd ddoethur. Fel arfer, dylai ymgeiswyr feddu ar neu ddisgwyl ennill gradd yn yr ail ddsbarth uwch o leiaf. Gweler hefyd baragraff 5 isod.

2. **Preswyl:** Rhaid i ddeiliaid yr ysgoloriaethau wneud eu gwaith ymchwil yn Aberystwyth a phreswyl yma am o leiaf 44 wythnos o'r flwyddyn. Os bydd deiliad ysgoloriaeth yn dymuno treulio cyfnod sylweddol yn rhywle heblaw Aberystwyth (e.e. ar gyfer gwaith maes estynedig), rhaid cael caniatâd y Dirprwy Is-Ganghellor priodol.

3. **Cyfnod yr Ysgoloriaeth:** Yn amodol ar gynnydd boddhaol i'w gadarnhau'n flynyddol gan Bwyllgorau Adolygu Ymchwil Athrofaol, fel arfer bydd ysgoloriaethau i'w dal am gyfnod o hyd at dair blynedd, gan gychwyn ar ddechrau'r sesiwn wedi'r gystadleuaeth, h.y. mis Medi. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol a chyda chaniatâd Pennaeth Ysgol y Graddedigion y gellir gohirio gwobr. Mae parhad gwobr ar gyfer pob sesiwn academiaidd newydd yn ddibynnol ar gynnydd boddhaol.

4. **Lefel y Wobr:** Telir ffioedd dysgu cartref (y DU) a chynigir dyfarniad cynhaliath gan ystyried cyfraddau ysgoloriaethau cyfredol Cyngor Ymchwil y DU. Serch hynny, ni fydd yr ysgoloriaethau Ysgoloriaeth PhD Margaret Wooloff yr un gwerth ag ysgoloriaethau'r Cynghorau Ymchwil o anghenraid. Bydd un swm cyffredin i'r holl fyfyrwyr amser llawn sy'n derbyn gwobrau Ysgoloriaeth PhD Margaret Wooloff Gall deiliaid yr ysgoloriaethau wneud cais am gyfraniad cyfyngedig tuag at gostau gwaith maes, mynychu cynadleddau, neu deithiau eraill. Nid oes darpariaeth ar gyfer lwfans ychwanegol ar gyfer plant. Rhaid i adran y myfyriwr dalu am gostau ymchwil eraill megis arolygon drwy'r post, defnyddiau treuliadwy mewn arbrefion.

5. **Dyfarniadau Cynghorau Ymchwil a Dyfarniadau Eraill:** Anogir holl ymgeiswyr ar gyfer y gystadleuaeth Ysgoloriaeth PhD Margaret Wooloff hefyd chwilio am gyllid o ffynonellau eraill gan gynnwys ysgoloriaethau'r Cynghorau Ymchwil i'w dal yn Aberystwyth os ydynt yn gymwys i wneud hynny, gan gynnwys myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd sy'n gymwys ar gyfer dyfarniadau'r Cynghorau Ymchwil sy'n talu ffioedd yn unig. Rhaid i ymgeiswyr sy'n llwyddo i ennill ysgoloriaeth gan Gyngor Ymchwil hysbysu'r Swyddfa Derbyn Graddeidion ar unwaith ac os yn ysgoloriaeth lawn, hepgor eu ysgoloriaeth Ysgoloriaeth PhD Margaret Wooloff.

6. Os bydd ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer dyfarniadau Ysgoloriaeth PhD Margaret Wooloff yn cael cynnig dyfarniad gan Gyngor Ymchwil neu ddyfarniad tebyg arall, rhaid iddo/iddi ildio'r dyfarniad Ysgoloriaeth PhD Margaret Wooloff. Oni cheir caniatâd y Dirprwy Is-Ganghellor, ni ellir dal dyfarniadau eraill ar yr un pryd ag Ysgoloriaeth PhD Margaret Wooloff.

7. **Dysgu a Gwaith Arall am Dâl:** Gyda chaniatâd Pennaeth yr Adran, caniateir i ddeiliaid ysgoloriaethau ymgymryd â dyletswyddau dysgu neu arddangos, os dymunant. Genwir taliadau ychwanegol i'r rhai hynny sy'n ymgymryd â'r gwaith ychwanegol hwn. Caiff cytundeb (heb oriau) ei lunio gan Adnoddau Dynol PA ar gyfer i'r perwyl hwn. Ni ddylai dyletswyddau o'r fath (sy'n

cynnwys gwaith paratoi ac asesu cysylltiedig) gymryd mwy na chwe awr mewn unrhyw wythnos, na mwy na 180 o oriau mewn sesiwn academaidd (pa un bynnag yw'r mwyaf) yn unol â chanllawiau'r Cynghorau Ymchwil. Bydd disgwyl i ddeiliaid ysgoloriaethau sy'n ymgymryd â dyletswyddau dysgu fynychu unrhyw gyrsiau y bydd Pennaeth Ysgol y Graddedigion yn gweld yn briodol. Ar wahân i ddyletswyddau o'r fath, ni chaniateir i ddeiliaid ysgoloriaeth ymgymryd ag unrhyw waith arall am dâl oni bai eu bod yn cael caniatâd gan y Dirprwy Is-Ganghellor priodol.

- 8. Tynnu'n ôl dros dro ac yn barhaol:** Os bydd deiliad ysgoloriaeth yn tynnu'n ôl o'r sefydliad yn barhaol, bydd yn ildio'i hawl i ysgoloriaeth. At hyn, bydd deiliad ysgoloriaeth sy'n tynnu'n ôl o'r Brifysgol yn gorfod ad-dalu i'r sefydliad y cyfran hwnnw o'r arian cynhaliaeth chwarterol y mae eisoes wedi ei dderbyn am y cyfnod y bydd ef/hi wedi tynnu'n ôl. Ni ellir rhoi rhagor o daliadau cynhaliaeth i unigolyn ar ôl iddo/iddi dynnu'n ôl. Gall myfyrwyr y gorfodir iddynt dynnu'n ôl dros dro o'u hastudiaethau, gyda chaniatâd y Deon priodol, gael eu hysgoloriaethau wedi eu hatal hyd nes y gallant ailgydio yn eu hastudiaethau.
- 9. Newid mewn amgylchiadau:** Cyfrifoldeb y myfyrwyr fydd i hysbysu'r Swyddfa Derbyn Graddedigion yn uniongyrchol cyn gynted â phosibl o unrhyw newid yn eu hamgylchiadau, e.e. tynnu'n ôl dros dro, derbyn cyllid o ffynhonnell arall, sy'n effeithio ar eu hawl i ddal ysgoloriaeth. Os na wneir hyn, gall arwain at gollu'r ysgoloriaeth ac adennill unrhyw daliadau a wnaed.
- 10.** Bydd copi o'r Telerau ac Amodau hyn y cael ei anfon at ymgeiswyr llwyddiannus gan y Swyddfa Derbyn Ôl-raddedig. Dylai ymgeiswyr llwyddiannus nodi yn ogystal eu cyfrifoldebau am eu gwaith a amlinellir yng Nghanllawiau i Fyfirwyr Ymchwil a Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol. Ni fydd unrhyw delerau nac amodau eraill mewn grym.
- 11.** Bydd unrhyw fyfyrwr sy'n derbyn Ysgoloriaeth PhD Margaret Wooloff yn cael ei ystyried yn fyfyrwr uwchraddedig i bwrpas hysbysu Cyngor Cyllido Uwch Cymru a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).
- 12.** Gellir gofyn i ddeiliaid Ysgoloriaeth PhD Margaret Wooloff i ymgymryd â holiaduron, ymchwil i'r farchnad, cyfweiliadau a chymorth gyda gweithgareddau marchnata.
- 13.** Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl unrhyw ysgoloriaeth neu i ddiwygio'r telerau ar gyfer dal ysgoloriaeth. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd ganddi'r hawl i gael yn ôl arian a dalwyd ganddi eisoes.

Noder fod yr Amodau a'r Telerau hyn yn cael eu adolygu yn flynyddol.